




Comisiwn
Democratiaeth
a Ffiniau Cymru

Democracy
and Boundary
Commission Cymru

ADRODDIAD BLYNYDDOL

YR IAITH GYMRAEG

2024 - 2025

COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU
ADRODDIAD BLYNYDDOL YR IAITH GYMRAEG 2024 – 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

MYNEGAI

- 1. Cyflwyniad a Chefndir**
- 2. Trosolwg o 2024-25**
- 3. Gweithredu'r Safonau**

1. Cyflwyniad a Chefndir

Yn dilyn Deddf yr Iaith Gymraeg (1993), diffiniwyd darpariaeth gwasanaethau Cymraeg gan Gynlluniau Iaith Gymraeg wedi'u datblygu'n unigol a gytunwyd rhwng cyrff cyhoeddus unigol a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r trefniant hwn bellach wedi'i ddisodli gan Safonau'r Gymraeg sydd wedi'u diffinio'n genedlaethol, a gall Comisiynydd y Gymraeg gymhwyso detholiad ohonynt i gyrff cyhoeddus (a rhai cyrff preifat, ymhen amser).

Diffiniwyd y fframwaith ar gyfer pennu safonau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) (2011), gyda'r safonau eu hunain wedi'u nodi yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Mae'r safonau sy'n gymwys i'r Comisiwn wedi'u diffinio mewn Hysbysiad Cydymffurfio a gyhoeddwyd gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ym mis Gorffennaf 2016, gyda dyddiad dod i rym ym mis Gorffennaf 2017. Yr hysbysiad hwn yw'r ddogfen gyfredol sy'n llywodraethu cydymffurfiaeth y Comisiwn.

Dyma wythfed Adroddiad Blynyddol y Comisiwn ers i'r safonau ddod yn weithredol, ac mae'n rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

2. Trosolwg o 2024 - 25

Y prif ffocws ar gyfer y cyfnod 2024-2025 oedd sicrhau bod y Comisiwn yn parhau i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mewn ymateb i newidiadau deddfwriaethol, cafodd y Comisiwn ei ail-frandio a'r enw swyddogol arno bellach yw Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (Democracy and Boundary Commission Cymru). Yn ogystal, cafodd cwrdd cyfrifoldebau'r Comisiwn ei ehangu i gynnwys yr adolygiad o etholaethau'r Senedd.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Comisiwn wedi cynnal nifer y staff sy'n siaradwyr Cymraeg yn ei weithlu, sef pedwar aelod o staff, gan alluogi'r Comisiwn i barhau i ddarparu gwasanaeth Cymraeg effeithiol i'w randdeiliaid. Mae'r Comisiwn hefyd wedi rhoi cymorth i aelodau o staff a ddilynodd cyrsiau Cymraeg drwy roi amser i ffwrdd i fynychu dosbarthiadau yn ogystal ag ariannu cost y cyrsiau. Penodwyd Comisiynydd Cymraeg ei iaith i'r Comisiwn am gyfnod o 4 blynedd hefyd.

Mae'r Comisiwn wedi cynnal trefniadau gweithio hybrid ac mae'r staff yn gallu gweithio gartref ac yn swyddfa'r Comisiwn. Nid yw'r trefniadau hyn wedi effeithio ar allu'r Comisiwn i barhau i ddarparu gwasanaeth Cymraeg i'w randdeiliaid.

Cafodd y Comisiwn un gŵyn am y ffordd roedd yn gweithredu'r safonau. Tynnodd y gŵyn sylw at bryderon ynglŷn â dull y Comisiwn o enwi etholaethau'r Senedd ac, mewn ymateb, gwnaeth y Comisiwn gydnabod yr angen am welliannau ac ymrwymodd i broses fwy tryloyw a chynhwysol. Newidiodd y Comisiwn ei bolisi enwi ac arweiniodd hyn at ddefnyddio enwau uniaith yn y set derfynol o gynigion ar gyfer etholaethau'r Senedd.

3. Gweithredu'r Safonau

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

O ran gohebiaeth, cynhyrchwyd pob un o'r llythyrau gweithdrefnol a negeseuon e-bost a anfonwyd fel rhan o'r adolygiadau o gymunedau a phroses adolygu'r Senedd yn Gymraeg a Saesneg a'u hanfon ar yr un pryd. Ar gyfer gohebiaeth arall, rhoddwyd system dewis iaith ar waith. Lle nad yw'r dewis iaith yn hysbys, caiff gohebiaeth ei hanfon yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r Comisiwn yn parhau i gynnal cronfa ddata sy'n cofnodi dewis iaith unigolion rydym yn gohebu â nhw. (Safonau rhif 1 i 7).

Mae gweithdrefnau ar waith o ran ateb y prif rif ffôn ac mae gwasanaeth peiriant ateb Cymraeg ar waith (Safonau rhif 8 i 22).

Mae gweithdrefnau ar waith o ran y trefniadau angenrheidiol ar gyfer cynnal cyfarfodydd. Wrth drefnu cyfarfodydd, mae'r Comisiwn hefyd yn cydweithio â chyrff cyhoeddus eraill sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg h.y. awdurdodau lleol. (Safonau rhif 24 i 30).

Ni chynhaliodd y Comisiwn unrhyw ddigwyddiadau cyhoeddus yn ystod y flwyddyn (Safonau rhif 31 i 34).

Cyhoeddwyd yr holl ddogfennau a gynhyrchwyd ar gyfer y cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd (Safonau rhif 36, 44 a 45).

Cafodd y ffurflenni ar borth ymgynghori adolygu'r Senedd a oedd ar gael i'r cyhoedd eu cynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg (Safonau rhif 46 i 47).

Mae'r holl dudalennau ar wefan y Comisiwn yn gwbl weithredol ac ar gael yn Gymraeg a Saesneg (Safonau rhif 48, 51 a 52).

Caiff y cyfryngau cymdeithasol eu defnyddio yn Gymraeg a Saesneg (Safonau rhif 54 a 55).

Cynhyrchiwyd pob arwydd a hysbysiad yn Gymraeg a Saesneg i'r safon ofynnol. (Safonau rhif 57 i 59, 65 a 66).

Mae nifer y staff yn y Comisiwn sy'n siarad Cymraeg wedi galluogi'r Comisiwn i ddarparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn ôl y gofyn (Safon rhif 61).

Cynhaliodd y Comisiwn ymarfer tendro ar gyfer ei gontract Archwilio Mewnol a chynhyrchwyd holl ddeunydd y contract yn Gymraeg a Saesneg, gan ddilyn y gweithdrefnau trin priodol (Safonau rhif 72, 73, 75 a 76).

Mae'r Comisiwn yn parhau i gynnal ei hunaniaeth gorfforaethol yn unol â'r Safonau. (Safonau rhif 77 i 79).

O ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n berthnasol i'r Comisiwn a sut y dylid cydymffurfio â nhw, mae'r rhain i'w gweld yn y ddogfen Polisi a Gweithdrefnau Safonau'r Gymraeg sydd wedi'i chyhoeddi ar y wefan ac sydd ar gael yn y swyddfa. (Safonau rhif 149 a 153).

Mae Polisi Cwynion am y Gymraeg y Comisiwn ar gael ar y wefan ac yn y swyddfa. (Safonau rhif 150 i 151).

Y ddogfen hon yw adroddiad blynyddol y Comisiwn mewn perthynas â'r safonau cyflenwi gwasanaethau (Safon rhif 152).

Safonau Llunio Polisi

Cynhaliodd y Comisiwn Asesiad o Effaith Polisi ar y Gymraeg o ran ei bolisi enwi Cymraeg ar gyfer Adolygiad y Senedd. Cyhoeddwyd yr asesiad hwn ar wefan y Comisiwn. (Safonau rhif 84 i 89).

Ni chynhaliodd y Comisiwn unrhyw ymchwiliad yn 2024-25. (Safonau rhif 91 i 93).

O ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r safonau llunio polisi sy'n berthnasol i'r Comisiwn a sut y dylid cydymffurfio â nhw, mae'r rhain i'w gweld yn y ddogfen Polisi a Gweithdrefnau Safonau'r Gymraeg sydd wedi'i chyhoeddi ar y wefan ac sydd ar gael yn y swyddfa. (Safonau rhif 155 a 157).

Mae Polisi Cwynion am y Gymraeg y Comisiwn ar gael ar y wefan ac yn y swyddfa (Safon rhif 156).

Y ddogfen hon yw adroddiad blynyddol y Comisiwn mewn perthynas â'r safonau llunio polisi (Safon rhif 158).

O ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r safonau llunio polisiâu sy'n berthnasol i'r Comisiwn a sut y dylid cydymffurfio â nhw, mae'r rhain i'w gweld yn y ddogfen Polisi a Gweithdrefnau Safonau'r Gymraeg sydd wedi'i chyhoeddi ar y wefan ac sydd ar gael yn y swyddfa. (Safon rhif 159).

Cafwyd un cais am wybodaeth yn ymwneud â safonau llunio polisi yn ystod y flwyddyn. Daeth y cais hwn i law gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas ag asesu sgiliau Cymraeg ar gyfer recriwtio'r Pennaeth Iechyd Democrataidd. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn fodlon â'r wybodaeth a ddarparwyd. (Safon rhif 160).

Safonau Gweithredu

Mae Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith ar waith, ac mae copi wedi'i roi i bob aelod o'r staff a'r Comisiynwyr (Safon rhif 94).

Caiff dewisiadau iaith yr holl staff newydd a phresennol eu casglu a gweithredu yn unol â hynny (Safonau rhif 95 i 100)

Rhoddwyd gweithdrefn ar waith i sicrhau y caiff unrhyw bolisiâu staffio newydd neu ddiwygiedig eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg (Safonau 101 i 107)

Mae gweithdrefnau ar waith ar gyfer cwynion gan aelodau o staff ac ymateb iddynt, ac maent wedi'u cynnwys yn y Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith (Safonau 108, 108A, 110 a 111).

Mae gweithdrefnau yn ymwneud â materion disgyblu ar waith, ac maent wedi'u cynnwys yn y Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith (Safonau 112, 112A, 114 a 115).

Mae'r Comisiwn wedi diweddarau'r rhannau o'i fewnwyd y ceir mynediad ar y cyd iddynt ac y mae ganddo reolaeth weinyddol drostynt er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a gaiff ei huwchlwytho ar gael yn Gymraeg. (Safonau 118, 120 i 123).

Cynhaliwyd asesiad o sgiliau Cymraeg pob aelod o staff ac mae'n cael ei gynnal. (Safon 123), Atodiad 1.

Mae pob aelod o staff wedi cael gwybod am gyfleoedd i gael hyfforddiant yn Gymraeg, a'u hannog i fanteisio arnynt, ym mhob cyfarfod tîm misol. Yn ogystal, caiff pob aelod newydd o staff ei annog i fynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Mae pob aelod o staff wedi cael copi o'r Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith a dogfen Polisi a Gweithdrefnau Safonau'r Gymraeg y Comisiwn, fel bod ganddo ddealltwriaeth o ddyletswydd y Comisiwn i weithredu yn unol â Safonau'r Gymraeg a sut y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle (Safonau 126 i 129).

Rhodddwyd geiriad a chyfarwyddiadau priodol i bob aelod o staff o ran llofnodion e-bost a manylion cyswllt (Safonau 130 a 131).

Gwnaeth y Comisiwn recriwtio i dair swydd yn 2024-25. Cynhaliwyd asesiadau o sgiliau Cymraeg ar gyfer pob swydd. (Safonau 132 i 133B, 135 i 136), Atodiad 2.

Gosodwyd arwyddion dwyieithog newydd yn swyddfa newydd y Comisiwn yn ystod y flwyddyn (Safonau 137 i 139).

O ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r safonau gweithredu sy'n berthnasol i'r Comisiwn a sut y dylid cydymffurfio â nhw, mae'r rhain i'w gweld yn y ddogfen Polisi a Gweithdrefnau Safonau'r Gymraeg sydd wedi'i chyhoeddi ar y wefan ac sydd ar gael yn y swyddfa. (Safonau rhif 161 a 163 a 165).

Mae Polisi Cwynion am y Gymraeg y Comisiwn wedi'i adolygu ac mae ar gael ar y wefan ac yn y swyddfa (Safon rhif 162).

Y ddogfen hon yw adroddiad blynyddol y Comisiwn mewn perthynas â'r safonau gweithredu (Safon rhif 164).

Safonau Cadw Cofnodion

Cafodd y Comisiwn un gŵyn yn ymwneud â'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn. Gwnaeth y Comisiwn gydnabod y gŵyn a rhoddodd y camau angenrheidiol ar waith i ddatrys y materion a godwyd yn y gŵyn. (Safonau 141 i 143).

Mae Cofnod Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg wedi'i greu a'i gynnal i sicrhau bod cofnod o gydymffurfiaeth â'r safonau ar gael (Safonau 144 i 148).

O ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r safonau cadw cofnodion sy'n berthnasol i'r Comisiwn a sut y dylid cydymffurfio â nhw, mae'r rhain i'w gweld yn y ddogfen Polisi a Gweithdrefnau Safonau'r Gymraeg sydd wedi'i chyhoeddi ar y wefan ac sydd ar gael yn y swyddfa (Safon rhif 167).

Cwblhaodd y Comisiwn gais am dystiolaeth hunanasesu gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (Safon rhif 168).

Atodiad 1**Sgiliau Cymraeg Staff: Safon 123**

Mae'r tabl hwn yn manylu ar yr aelodau staff a oedd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd 2024-25 (Mawrth 2025). Mae'r ffigurau wedi'u seilio ar y cofnodion a gedwir yn unol â Safon 123.

Sgiliau (Lefelau 0-5)	0	1	2	3	4	5	Cyfanswm
Gwranddo	3	4	1	1	1	3	13
Darllen	3	5	1	0	1	3	13
Siarad	3	5	1	0	1	3	13
Ysgrifennu	3	6	0	0	1	3	13

Atodiad 2**Recriwtio i Swyddi: Safon 132**

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y swyddi a hysbysebwyd yn 2024-25 o dan bob gofyniad sy'n ymwneud â sgiliau Cymraeg. Mae'r ffigurau'n adlewyrchu'r cofnodion a gedwir yn unol â Safon 132.

Cymraeg yn Hanfodol	1
Cymraeg yn Ddymunol	2
Cymraeg i'w Dysgu	0
Nid yw'r Gymraeg yn Angenrheidiol	0